# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-18-06(p8)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher13 Rhagfyr 2006
### Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 1, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Pecyn Cymorth ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

#### Diben

Er mwyn hysbysu'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gynnydd yn y gwaith o ddatblygu Pecyn Cymorth Datblygu Cynaliadwy ar gyfer y GIG yng Nghymru.

#### Crynodeb / Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnydd ar y gwaith hwn.

#### Cefndir

Mae adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru "...lunio cynllun yn nodi sut y bydd yn hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy wrth weithredu ei swyddogaethau…". Mae Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ddaw i rym yn syth ar ôl y diwrnod y penodir Prif Weinidog yn dilyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007) yn gosod y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru.

Mabwysiadwyd cynllun diwygiedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Dechrau Byw'n Wahanol ym mis Mawrth 2004, ac yn ei ail Gynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod 2004-2007, cydnabuwyd bod gan y sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyflogwr, deiliad tir, prynwr nwyddau a gwasanaethau o bwys, y potensial i fod yn enghraifft batrymol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. O ganlyniad, mae gan y Cynllun Gweithredu ymrwymiad i "...bennu camau allweddol ar gyfer y GIG yng Nghymru i ddatblygu'r agenda....".

#### Datblygu Cynaliadwy a'r GIG yng Nghymru

Mae tystiolaeth gadarn, efallai wedi'i nodi'n fwyaf effeithiol yn adroddiad Cronfa'r Brenin: Claiming the Health Dividend: Unlocking the Helath Benefits of NHS spending (2002), o ran y potensial enfawr sydd gan y GIG i gyfrannu at Ddatblygu Cynaliadwy. Gall wneud hyn drwy'r gwasanaethau y mae'n eu datblygu a'u darparu gyda'i bartneriaid, a thrwy ei bwer economaidd fel cyflogwr, prynwr nwyddau a gwasanaethau, achos teithio, cynhyrchydd gwastraff, defnyddiwr ynni a chomisiynydd gwaith adeiladu.

Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (DHSS) a Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol

(OCMO), mewn partneriaeth â'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC), yn gweithio ar y cyd i ddatblygu'r agenda hon. Mae Grwp Llywio, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ymddiriedolaethau’r GIG, Ystadau Iechyd Cymru, Gwerth Cymru, swyddogion y Cynulliad, yr SDC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyfarfod i drafod yr agenda.

O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, ym mis Ebrill 2006, cyhoeddodd DHSS a OCMO Gylchlythyr Iechyd Cymru a oedd yn cynnwys Datganiad Polisi ar Ddatblygu Cynaliadwy: WHC(2006)029: Cymru Gynaliadwy Iach - Cyfraniad y GIG. Mae'r Datganiad Polisi yn datgan y pum egwyddor arweiniol cydgysylltiedig o Fframwaith Strategol eang y DU ar gyfer Datblygu Cynaliadwy; Un Dyfodol, Llwybrau Gwahanol (2005), ac yn darparu ymrwymiad y bydd DHSS a OCMO, mewn partneriaeth â'r SDC, yn datblygu ac yn rhoi Pecyn Cymorth ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ar waith, er mwyn darparu arweiniad a chymorth fel y daw datblygu cynaliadwy yn thema graidd mewn prosesau ledled y GIG yng Nghymru

Mae Cynllun Oes, Fframwaith 10 mlynedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer creu gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf erbyn 2015, yn awgrymu y bydd BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG, erbyn mis Mawrth 2008, wedi cyflawni lefel aur neu lefel platinwm y Safon iechyd Gorfforaethol. Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru hefyd yn darparu amserlen a chynllun i sefydliadau i gyflawni'r camau gweithredu hyn.

Drwy gyhoeddi'r Datganiad Polisi hwn, dangosodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod y GIG yn cydnabod ei gyfrifoldebau.

## Y Pecyn Cymorth Datblygu Cynaliadwy

Diben y Pecyn Cymorth yw nodi sut y gall BILlau, Ymddiriedolaethau’r GIG a chontractwyr GIG lleol unigol asesu eu polisïau a'u harferion presennol o ran Datblygu Cynaliadwy. Bydd yn canolbwyntio ar feysydd penodol o ymarfer a pherfformiad, yn caniatáu hunan asesiad o'r sefyllfa bresennol ac yn dangos sut y gellid gwella perfformiad lleol. Bydd hefyd yn darparu cyfeiriad cychwynnol ar sut y dylid adlewyrchu egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn y dyfodol mewn cynlluniau ail-gyflunio rhanbarthol ac wrth gomisiynu gwasanaethau.

Mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys yr un-ar-ddeg maes cyflawni allweddol canlynol:

- Polisi Rheoli Corfforaethol;
- Gwella Iechyd;
- Adeiladau Newydd;
- Ymgysylltu â Chleifion;
- Cynllunio Strategol a Chomisiynu;
- Cyflogaeth a Sgiliau;
- Caffael (croesgyfeirio i Becyn Cymorth Asesu Caffael Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus);
- Trafnidiaeth a Theithio;
- Rheoli Cyfleusterau;
- Iechyd a Lles yn y Gweithle (y Safon Iechyd Gorfforaethol);

- Ymgysylltu â'r Gymuned.

Prif ddiben y Pecyn Cymorth Drafft yw rhoi Datblygu Cynaliadwy ar agenda rheoli prif ffrwd y GIG a gwrthweithio'r duedd iddo gael ei gweld fel swyddogaeth Ystadau yn bennaf.

## Y Sefyllfa Bresennol

Yn ystod haf 2006, cynhaliwyd peilot o'r Pecyn Cymorth, a elwir hefyd yn CYMRU GYNALIADWY IACH: Cyfraniad y GIG, mewn pedwar sefydliad iechyd yng Nghymru; BILl Sir Gaerfyrddin, BILl Caerffili, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg. Mae'r ymatebion a gafwyd o'r cynlluniau peilot hyn bellach yn cael eu hymgorffori i mewn i'r Pecyn Cymorth, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno gyda'r GIG yn ystod y cyfnod o ddiwedd Rhagfyr 2006/dechrau Ionawr 2007 i fis Mawrth 2007. Y gobaith yw y caiff y fersiwn terfynol ei gyhoeddi cyn y flwyddyn ariannol nesaf, os yn bosibl - diwedd Mawrth 2007.

Gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth, erbyn mis Mawrth 2008, bydd disgwyl i holl sefydliadau'r GIG fabwysiadu datganiad polisi clir ar ddatblygu cynaliadwy a chynllun gweithredu.

## Goblygiadau Ariannol

Bwriedir i'r Pecyn Cymorth gynghori'r GIG ar sut i ymgorffori ymagweddau datblygu cynaliadwy i mewn i'w gynlluniau a'i weithgarwch gweithredol yn rheolaidd. Nid yw'n ei wneud yn ofynnol iddynt sefydlu rhaglenni newydd. Cyllidebau sydd eisoes yn bodoli a fydd yn talu am gost cyhoeddi'r Pecyn Cymorth a'r adnodd ar y rhyngrwyd. Er nad oes costau ariannol uniongyrchol i'r fenter hon, bydd angen adnoddau BILl ac Ymddiriedolaethau'r GIG i brofi'r Pecyn Cymorth a llunio'r Cynlluniau Gweithredu Lleol a'r Strategaethau. Mae hwn yn bwysau ar eu cyllidebau a allai gael eu lleddfu drwy'r camau gweithredu a gaiff eu cyflawni fel rhan o'r broses o ddatblygu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles fydd i'w disgwyl yn 2008.

## Themâu Trawsbynciol

Mae'r Pecyn Cymorth Drafft yn cefnogi egwyddor ymgysylltu agored gyda phartneriaid lleol a'r gymuned ehangach.

Cyhoeddwyd Dogfen Ymgynghori - Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-2011 - ar y 28ain Tachwedd 2006. Caiff yr Ymgynghoriad hwn ei gynnal tan 16eg Chwefror 2007 ac mae'n darparu Canllawiau Statudol Drafft ac yn newid y Rheoliadau ar gyfer y cylch nesaf o strategaethau ym mis Ebrill 2008. Cynigir y bydd y Canllawiau terfynol (a gaiff eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2007) yn cynnwys gofyniad i gyrff y GIG fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy drwy Ddatganiad Polisi a Chynllun Gweithredu; bydd y Pecyn Cymorth yn hwyluso hyn.

Mae'r Pecyn Cymorth Drafft hefyd yn ategu'r egwyddorion a nodir yn Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Beecham: Creu’r Cysylltiadau - Cyflawni ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ogystal, bydd y Pecyn Cymorth Drafft yn annog Rheolwyr y GIG yn gyffredinol i fynd i'r afael â Newid mewn Hinsawdd yn eu gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau.

## Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur hwn.

Dr Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwynt Cyswllt: Sian-Marie James, Uned Strategaeth, Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
Ffôn: 02920 826747.